

Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer

13/11/2017

Presennol: Emyr Jones, (Cadeirydd), Tyly Roberts, (Is Gadeirydd), Eleri Jones, Geraint Roberts, Gwyn Roberts, W D Williams, Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Clerc

Absennol: Huw Roberts

1. Croesawyd pawb a derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Alan Jones Evans; dymunwyd adferiad iechyd buan iddo.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Nid oedd datganiadau buddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Medi 11, 2017.
5. Materion i'w hadrodd yn dilyn cyfarfod Medi 2017:
 - a. 7c Derbyniwyd gwybodaeth ein bod yn aros i drydanwr gysylltu'r 2 di-ffib i'r ddau giosg.
 - b. 7e Anfoneb Cyngor Gwynedd – derbyniwyd eglurhad o'r gost a thrafodwyd yr awgrym fod y ddwy ward yn uno. Y teimlad oedd fod angen gwarantu fod nifer y cynrychiolwyr o'r ddwy ardal yn parhau.
 - c. 8c Cyflwr Eglwys Santes Gwawr – mae pryder y Cynghorwyr yn cynyddu a chytunwyd i anfon at adran treftadaeth Parc Cenedlaethol Eryri i fynegi ofn fod y wal gyfan yn gŵyro.
6. Derbyniwyd Adroddiad y Cynghorydd Sir (trwy neges). Mynegodd ei syndod fod gwrthwynebiadau o du allan i Langywer i osod llinellau melyn ar y ffordd rhwng yr orsaf a'r Clwb Hwyllo gan ei bod yn hanfodol i iechyd a diogelwch trigolion ac ymwelwyr fod digon o le i'r gwasanaethau brys deithio ar hyd y ffordd yn ddidramgwydd. Awgrymwyd llinellau ar hyd un ochor i'r ffordd, neu hepgor llinellau bob ochor i'r ffordd yn y manau sydd yn ddigon llydan i barcio bob ochor tra hefyd yn caniatáu i injan dân fynd rhyngddynt.
7. **Materion ariannol:**
 - a. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol.
 - b. Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis – Swyddfa Archwilio Cymru ac Un Llais Cymru (hyfforddiant).
8. **Y Fynwent:**
 - a. Derbyniwyd gwybodaeth am y bin masnachol a osodwyd yn y fynwent. Mae siâl wedi ei osod o dan y bin.
 - b. Derbyniwyd neges gan y Brodyr Evans am ail-agor bedd.

Arwyddwyd..... (Cadeirydd)(Clerc)

9. **Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned:** Mae angen i Gyngor Gwynedd roi sylw i'r twll yn y ffordd o dan Llechwedd Ystrad.

Derbyniwyd sylwadau yn canmol y gorlan biniau ar gyfer trigolion Cwm y Glyn, ond dywedwyd bod angen clo cryfach i'r gorlan.

10. **Partneriaeth Penllyn:** Nid oedd adroddiad gan fod y Bartneriaeth yn cynnal cyfarfod heno.

11. **Gohebiaeth:**

Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd gwybodaeth am Gynllun *Hunaniaith*

Parc Cenedlaethol Eryri: Derbyniwyd gwybodaeth am blannu coed afalau a chadarnhawyd mai wrth y Neuadd yn Llangywer ac ar safle picnic Dolwen Isaf mae angen eu plannu.

Llywodraeth Cymru: Derbyniwyd gwybodaeth am ffiniau etholaethau seneddol a mynegwyd balchder fod y Comisiwn Ffiniau wedi gwrandao ar gais y Cynghorau lleol i gadw Penllyn o fewn ardal Dwyfor Meirionnydd.

Arall: Nodwyd derbyn gwybodaeth am Gynllun Datblygu Lleol Powys.

Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: Ionawr 15fed 2018